Ymgynghoriad cyhoeddus

Diwygiad Lwfans Byw i'r Anabl

DWP Department for Work and Pensions
Adran Gwaith a Phensiynau

Crynodeb byr

Mae Maria Miller, Gweinidog i Bobl Anabl, wedi gofyn i bobl anabl a sefydliadau anabledd i ymuno â'r ddadl ynglŷn â diwygio Lwfans Byw i'r Anabl.

Gosododd ei chynigion allan yn y papur ymgynghoriad cyhoeddus, *Disability Living Allowance reform*. Cyhoeddwyd hwn ar 6 Rhagfyr 2010.

Fel rhan o'r newidiadau i'r wladwriaeth les, mae Lwfans Byw i'r Anabl angen bod yn fwy addas i anghenion pobl anabl heddiw a chostau ychwanegol y gallant wynebu.

Yng nghanol y cynigion yn yr ymgynghoriad yw creadigaeth budd-dal newydd, cliriach wedi'i dargedu'n well – Taliad Annibyniaeth Bersonol. Bydd y budd-dal newydd yn cael ei gynllunio i helpu pobl anabl ddilyn bywydau annibynnol llawn ac actif a chael asesiad gwrthrychol o anghenion unigol. Bydd Taliad Annibyniaeth Bersonol yn parhau i fod yn brawf ddi–modd, ddim yn dibynnu ar fod wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol a bydd ar gael i bobl i mewn ac allan o waith.

Ar hyn o bryd mae bron i 3 miliwn o bobl yn derbyn y budd-dal hwn ar gost rhagolygol o £12 biliwn yn 2010/11. Dyma'r ail fudd-dal oedran gwaith mwyaf drud yr Adran, ac yn costio llawer mwy na'r amcangyfrif gwreiddiol.

Y prif ardaloedd am ddiwygiad o fewn yr ymgynghoriad yw:

- Symleiddio: mae'r system bresennol wedi tyfu'n rhy gymhleth ac mae ei phwrpas yn cael ei cham ddeall
- Asesiad: gall yr asesiad presennol fod yn oddrychol ac nid oes ffordd systematig o wirio'n rheolaidd fod dyfarniad yn aros yn gywir
- Tegwch: gall dyfarniadau fod yn anghyson ac yn annheg; rydym eisiau creu system sy'n eglur a theg

Bydd cyfnod o ymgynghoriad ar y newidiadau hyn o 6 Rhagfyr 2010 hyd at 14 Chwefror 2011.

Mae'r papur llawn ar gael ar-lein yn:
www.dwp.gov.uk/dla-reform